

# Bwrdd Cyflenwi Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach

19 Tachwedd 2020

## Hysbysiad



Cafodd y pedwerydd cyfarfod o Fwrdd Cyflenwi Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach ei gynnal ar 19 Tachwedd. Mae'r Bwrdd, sy'n cael ei gadeirio gan Darren Hughes, Cyfarwyddwr Confederasiwn GIG Cymru, yn chwarae rôl allweddol i lywio cynnydd y weledigaeth ar gyfer Fferylliaeth.

Yn y cyfarfod diweddaraf hwn, canolbwyntiodd y Bwrdd ar drafod:

### Cylch Gorchwyl

Roedd y Cylch Gorchwyl drafft wedi'i rannu â'r Bwrdd cyn y cyfarfod gan groesawu sylwadau i fireinio'r manylion. Roedd y Bwrdd yn fodlon cytuno i'r Cylch Gorchwyl, gyda rhai mân ddiwygiadau. Cytunwyd hefyd y gellid wedyn ei rannu â'r is-grwpiau sy'n helpu'r Bwrdd i gyflawni ei amcanion.

### Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach – Fframwaith Cyllid

Ym mis Chwefror 2020 sicrhodd Llywodraeth Cymru gymeradwyaeth Gweinidogol i ariannu nifer bach o brosiectau arloesol lleol sy'n cyd-fynd â Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach i helpu i weddnewid cyfraniad fferyllwyr a thechnegwyr fferylliaeth at ddarparu gofal ac i hyrwyddo cydweithio ar draws byrddau iechyd, gofal sylfaenol, fferylliaeth gymunedol a'r trydydd sector.

Mae'r Fframwaith Cyllid yn amlinellu'r broses ar gyfer adolygu cynigion prosiectau ac yn darparu system ar gyfer yr asesiad a'r argymhellion a wneir gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Rôl y Bwrdd Cyflenwi yw cyfrannu at yr asesiadau cychwynnol, a darparu sicrwydd yn eu cylch. Mae'r asesiadau cychwynnol hyn yn llywio'r penderfyniad cyllido terfynol a wneir gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Bwrdd yn fodlon cytuno i'r Fframwaith fel y'i drafftwyd.

### Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach – Ceisiadau am Gyllid

Yn yn yr ail rownd, daeth 17 o gynigion i law ar draws ystod o fyrddau iechyd a sectorau; roedd un o'r rhain wedi'i gyflwyno ddwywaith (gan unigolyn a chan fwrdd iechyd); felly aseswyd 16 o gynigion. Nid oedd 11 o'r cynigion yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Argymhellodd Llywodraeth Cymru i 5 ohonynt gael eu cymeradwyo ac fe'u rhannwyd â'r Bwrdd i gael sylwadau.

At ei gilydd, roedd y Bwrdd yn gefnogol o bob un o'r 5 cynnig ond gan argymhell gofyn am ragor o fanylion a fyddai'n cryfhau'r cynigion. Hefyd, darparodd y Bwrdd adborth adeiladol a fydd yn cyfrannu at ymateb Llywodraeth Cymru i ymgeiswyr.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o Fwrdd Cyflenwi Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach ym mis Chwefror 2021 (dyddiad i'w gadarnhau)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â ni yn:  
[Pharmacy.DeliveryBoard@llyw.cymru](mailto:Pharmacy.DeliveryBoard@llyw.cymru)